Cyllid & Thollau EM

Credyd Treth Plant a chi

Symud i gredydau treth

Fel cynghorwyd ni fyddech bellach yn cael eich talu elfen yn ymwneud a phlentyn gyda'ch budd-dal o Ganolfan Byd Gwaith. Yn ei le fyddwch yn derbyn taliad Credyd Treth Plant oddi wrthym ni. Taliad yw Credyd Treth Plant oddi wrth y llywodraeth ar gyfer pobl sy'n magu plant.

Bydd y cymorth yr ydych yn ei dderbyn megis ciniawau ysgol am ddim, Cychwyn Iach a phresgripsiynau am ddim yn parhau pan fyddwch yn derbyn Credyd Treth Plant.

Efallai fyddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth cyn i ni ddechrau talu Credyd Treth Plant. Ymatebwch yn gyflym os gwelwch yn dda. Mae hyn y bwysig er mwyn i ni allu delio a'ch cais i sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer eich plentyn neu'ch plant.

Fyddwn yn talu'r Credyd Treth Plant yn wythnosol ond efallai na fydd ar yr un diwrnod a'r budd-dal yr ydych yn ei dderbyn oddi wrth Ganolfan Byd Gwaith. Os ydych angen mwy o wybodaeth ynglyn a'ch taliadau, yna ffoniwch y llinell gymorth isod ynglyn a Chredyd Treth Plant neu eich Canolfan Byd Gwaith ynglyn eich budd-daliadau.

Rhestr Gwirio

Anfonwn hysbysiad dyfarnu credydau treth atoch. 'Fydd hwn yn dweud wrthych:
- y wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'ch amgylchiadau personol
- faint o arian fyddwch yn derbyn, a
- pryd fyddwn yn eich talu.

Anfonwn restr gwirio atoch gyda'ch hysbysiad dyfarnu. Defnyddiwch ef i wirio fod oll o'r wybodaeth yn gywir. Dywedwch wrthym yn fuan os oes rhywbeth o'i le, ar goll neu'n anghyflawn. Os ydych yn oedi i ddweud wrthym:
- efallai na gewch chi oll o'r arian yr ydych a'r hawl iddo, neu
- allwch adeiladu ordaliad fydd rhaid i chi ad-dalu.

Newid mewn amgylchiadau

Mae credydau treth yn hyblyg ac yn newid pan mae eich bywyd yn newid. Unwaith yr ydych yn dechrau derbyn credydau treth, dywedwch wrthym yn syth ynglŷn ag unrhyw newidiadau, megis:
- rydych yn cychwyn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos (yn ogystal â Credyd Treth Plant efallai allwch gael Credyd Treth Gwaith a chymorth gyda chostau gofal plant)
- rydych yn stopio gweithio
- rydych yn dechrau neu orffen byw gyda phartner
- mae plentyn yn gadael addysg lawn-amser neu ddim yn byw efo chi bellach
- rydych yn cael baban arall.

Bydd y rhestr gwirio gyda'r hysbysiad dyfarnu yn dweud wrthych ba newidiadau i ddweud wrthym amdano.

Adnewyddiadau

Rhwng Ebrill a Mehefin bob blwyddyn, fyddwn yn gofyn i chwi adnewyddu eich cais am gredydau treth. Gwiriwch y wybodaeth yr ydym yn anfon atoch yn y pecyn adnewyddu a cysylltwch â ni i adnewyddu'r cais cyn y terfyn amser.

Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chredydau treth, byddwch a'ch rhif Yswiriant Gwladol wrth law a ffoniwch.

Llinell gymorth credydau treth **0845 300 3900**
Ffôn destun **0845 300 3909**
Ar agor o 8.00yb i 8.00yrh saith diwrnod yr wythnos

Er mwyn siarad â rhywun yn Gymraeg ffoniwch:

Canolfan Gyswllt **0845 302 1489**
Ar agor 8.30yn hyd at 17.00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener

Neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**